

Polisi Preifatrwydd Technocamps

Rhaglen allgymorth mewn ysgolion a chymunedau ar draws Cymru yw Technocamps, a arweinir gan Adran Gyfrifiadureg Prifysgol Abertawe mewn hybiau ym mhob prifysgol yng Nghymru. Ariennir y rhaglen drwy Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Gan yr arweinir y prosiect ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn defnyddio Polisi Diogelu Data Prifysgol Abertawe fel canllaw. Caiff unrhyw fater nad yw wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei drafod ym mholisi'r Brifysgol (<https://www.swansea.ac.uk/cy/cyn-fyfyrywyr/cysylltwch-a-ni-/polisi-preifatrwydd/>).

Mae'r Brifysgol yn ystyried bod casglu, prosesu a chadw data personol yn hynod bwysig ac mae'n cydymffurfio ag egwyddorion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR) a'r canllawiau manwl a ddarparwyd gan ein cyllidwyr.

Cydsyniad

Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata heb gydsyniad pendant. Pan fydd cyfranogwyr yn 15 oed neu'n hŷn, byddwn yn casglu eu data drwy riant neu ofalwr. Yn achos unigolion 16 oed neu'n hŷn, rydym yn ei gasglu'n uniongyrchol gan yr unigolyn. Mae'r sail gyfreithiol am brosesu data personol a chategori arbennig wedi'i chynnwys gan gydsyniad.

Diben Casglu Data

Rydym yn casglu data gan gyfranogwyr ein prosiectau am y rhesymau canlynol:

1. Monitro – i'w ddefnyddio fel tystiolaeth i'n cyllidwyr o'r cyfranogwyr sydd wedi elwa o fod yn rhan o'r rhaglen. Darperir y data hwn i'n cyllidwyr yn unol â'u canllawiau diogelu data hwy.
2. Gwerthusiad – darparu mewnwelediad i effaith a chasglu adborth gan gyfranogwyr sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt.

Casglu a chadw data

Caiff pob darn o ddata unigol ei gadw ar ffurf copïau papur ac electronig. Caiff copïau papur eu ffeilio mewn cypyrddau ffeiliau wedi'u clou mewn swyddfeydd y mae mynediad cyfyngedig iddynt. Caiff data electronig ei gadw mewn system ddiogel ag enw defnyddiwr a chyfrinair a reolir gan GGS Prifysgol Abertawe.

Cadw Data

Bydd Technocamps yn cadw gwybodaeth bersonol am o leiaf 10 mlynedd, yn unol â pholisi WEFO.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Eich Hawliau

Os oes gennych bryderon am ba wybodaeth sy'n cael ei chadw, mae gennych yr hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, yn ogystal â'r hawl i gywiro, dileu a chyfyngu eich gwybodaeth bersonol. Os oes gennych unrhyw bryderon am ddefnyddio eich data at y dibenion hyn neu os hoffech gael copi o'r data sydd gennym amdanoch chi, dylech anfon ceisiadau neu wrthwynebiadau ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:

Mrs Bev Buckley

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data) Swyddfa'r Is-ganghellor

Prifysgol Abertawe

Parc Singleton

Abertawe SA2 8PP

E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

Cwynion

Os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd yr ymdrinnir â'ch data personol neu sut y'i prosesir, neu os oes problem gyda chywirdeb yr wybodaeth, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion uchod.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

